Driver & Vehicle Licensing Agency

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Adnoddau Dynol ac Ystadau

# Cynllun gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA), Abertawe

Ebrill 2017 – Mawrth 2020



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mwy syml | Yn well | Mwy diogel

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

OGL

Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 onibai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch i'r Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU,
neu ebostiwch: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**

Ble rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd wrth y deiliad hawlfraint dan sylw.

Mae'r canllaw hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn
**www.dvla.gov.uk**

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon i
Sustainability.team@dvla.gsi.gov.uk

# Cynnwys

Cyflwyniad
01 ........................................ 4

Safleoedd
02 ........................................ 6

Heriau i'n bioamrywiaeth
03 ........................................ 9

Deddfwriaeth
04 ........................................ 11

Nodau
05 ........................................ 13

Mapiau
06 ........................................ 17

Atodiadau
07 ........................................ 20

# 01 Cyflwyniad

# Cyflwyniad

**Rydym yn sefydliad mawr sydd yn cyflogi dros 5,500 o weithwyr yn Abertawe, de orllewin Cymru. Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal rydym yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau twf cynaliadwy ein cymunedau lleol, diogelwch economaidd yn ein rhanbarth a bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei gynnal, ei gyfoethogi a'i werthfawrogi.**

Rydym wedi dangos ymrwymiad i roi gwerth ar asedau naturiol yr ystad trwy gynhyrchu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth (CGB) ers 2013. O ganlyniad i'r gweithgarwch hyn a'r gweithredu yn eu sgil, mae'r bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol wedi ffynnu ac ymrwymiad y gweithlu â'r pwnc wedi cynyddu.

Rydym wedi ymrwymo dan y gyfraith i gynnal ac ychwanegu at ein bioamrywiaeth ac i ystyried effaith ein gweithredoedd ar ein hecosystemau. Mae'r CGB newydd yn gobeithio cyflawni'r un llwyddiant â'r cynlluniau gweithredu blaenorol, parhau i gynnal a chynyddu bioamrywiaeth yn unol â deddfwriaeth, a rhoi cyfle i staff a chymunedau lleol gynyddu eu gwybodaeth am a'u profiadau yn y maes hwn.

Yn wahanol i gynlluniau gweithredu blaenorol, rydym wedi ehangu'r cwmpas i gynnwys ein hystad gyfan a cheisio creu partneriaethau gyda rhanddeilaid allanol perthnasol er mwyn cyrraedd ein nodau.



# 02 Safleoedd

# Safleoedd


**Rydym yn defnyddio safleoedd yn Abertawe, de Cymru mewn gwahanol ardaloedd yn y ddinas gyda gwahanol fathau o gynefinoedd. Mae gan yr holl safleoedd natur a hanes diwydiannol gwahanol, ac amcanion, ac maent yn wahanol hefyd yn nhermau eu maint a niferoedd y gweithwyr ynddynt.**

## i. Treforys

Ein safle yn Nhreforys yw ein safle mwyaf, yn cynnwys yn agos at 26 erw o adnoddau pori, prysgwydd a gyflwynwyd, gwrychoedd nas defnyddir a chynefin brithwaith agored. Mae yna fannau lle mae coed aeddfed yn tyfu heb rwystr, llawer ohonynt yn dyddio i gyfnod Victoria ac felly o bwysigrwydd diwylliannol. Rydym yn ystyried hwn fel ein prif safle gan mai fan yma y lleolir y rhan fwyaf o'n 5,500 o weithwyr.

Mae tair ardal fawr i weithwyr barcio eu cerbydau ynddynt yn Nhreforys, gan gynnwys un adnodd aml-lawr. Mae gan y meysydd parcio cerbydau ar dir isel ranwyr graean a phrysgwydd wedi eu gosod hwnt ac yma ar draws y parthau.

Mae'r safle mewn ardal breswyl, gyda ffyrdd prysur o amgylch a mynwent fawr gerllaw. I'r gogledd mae ardaloedd gwledig mawrion gyda chynefinoedd amrywiol.







## ii. Bro Abertawe

Ar ein safle Bro Abertawe ceir ein Canolfan Gyswllt a'n canolfannau hyfforddi. Mae nant - cyfrifoldeb yr awdurdod lleol - yn gwahanu'r adeiladau. Mae'r safle tua saith erw o ran maint ac wedi ei osod mewn parth menter prysur.

Gorlifdir yw'r tir ei hun, gyda rhwydwaith o byllau a nentydd. Mae Afon Tawe â phorfeydd tebyg i gorstir heb eu datblygu a choetir oll o fewn ychydig gannoedd o fetrau.







# 03 Heriau i’n bioamrywiaeth

# Heriau i’n bioamrywiaeth

## i. Rhywogaethau goresgynnol

Mae’r planhigyn Clymog Japan yn tyfu yn Nhreforys a gellir ei weld mewn nifer cynyddol o ardaloedd ar y safle.  Rydym wedi adolygu cynlluniau gweithredu blaenorol a diwygio ein hymagwedd i’r driniaeth ohono dros y 12 mis a aeth heibio.

Am wybodaeth bellach ynghylch y ffordd rydym yn mynd i’r afael â’r her hon, gweler nod 4.

Mae planhigion estron eraill megis garlleg mêl Sisili (Allium siculum) a bambŵwedi eu canfod yn ddiweddar ar ein safleoedd. Er nad ydynt yn oresgynnol nid ydynt yn cyd-fynd â’n huchelgais i ddatblygu’r safle yn y ffordd fwyf naturiol ac rydym yn gweithio gyda’n tîm tirlunio i reoli eu heffaith.

Am wybodaeth bellach ynghylch y ffordd rydym yn mynd i’r afael â’r her hon, gweler nod 1.

## ii. Cyfathrebu integredig

Rydym wedi cymryd camau breision i sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi a’n hamrywiol feysydd busnes yn cyfathrebu’n effeithiol ynghylch gweithgareddau arfaethedig a all effeithio ar neu gael dylanwad ar gyfansoddiad cynefinoedd yr asiantaeth. Er hyn, mae rhagor i’w wneud i sicrhau bod pob prosiect yn talu’r sylw dyledus i’r amgylchedd naturiol.

Am wybodaeth bellach ynghylch y ffordd rydym yn mynd i’r afael â’r her hon, gweler nodau 1 a 2.

## iii. Cymudo

Mae cryn alw am adnoddau parcio ar ein prif safle. Er mwyn ceisio rheoli hyn rydym wedi lansio ymgyrch deithio newydd, gynaliadwy, sydd yn annog y defnydd o ddewisiadau amgen ar gyfer cymudo. Mae hyn yn cynnwys bysiau gwaith, adnodd parcio a theithio rhad ac am ddim, maes parcio penodol ar gyfer rhannu ceir a gwell adnoddau ar gyfer beicwyr. Fodd bynnag, mae angen i ni barhau i gyfathrebu’r berthynas rhwng cynlluniau pellach i fynd i’r afael â’r galw am leoedd parcio a chynnal ein bioamrywiaeth a’n tir glas yn effeithiol a pheidio â pheri colledion i’n cynefinoedd.

Am wybodaeth bellach ynghylch y ffordd rydym yn mynd i’r afael â’r her hon, gweler nod 1.



# 04 Deddfwriaeth

# Deddfwriaeth

Fel asiantaeth y llywodraeth, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ofalu am gadwraeth a bioamrywiaeth dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) (EWA). Yn fwy penodol, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru

**'..... geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth weithredu eu swyddogaethau mew perthynas â Chymru, ac wrth wneud hyn hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, cyn belled â'u bod yn gyson â'r defnydd cywir o'r swyddogaethau hynny.'**

At hyn, disgwylir i ni roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth berthnasol arall ynghylch yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae'r Deddfau hyn yn diogelu rhywogaethau penodol a'u safleoedd nythu neu orffwys rhag aflonyddiad anystyriol a difrod.







# 05 Nodau

# Nodau

Mae'r nodau yn cyflwyno amcanion newydd, yn parhau gyda gweithredoedd llwyddiannus ac yn gwella ar y nodau CGB blaenorol oedd wedi mwynhau llwyddiant cyfyngedig yn unig.

Fe'u gosodwyd gyda'r bwriad trosfwaol o sicrhau cydymffurfio gyda deddfwriaeth; paratoi ein hystad ar gyfer heriau'r dyfodol; a lledaenu ein gwybodaeth, profiadau a chysylltiadau gyda rhanddeiliaid perthnasol.

Bydd llwyddiant yn cael ei fonitro mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys canlyniadau arolygon, dadansoddi cyfathrebiadau a ddaw i law ac archwiliadau cynnal a chadw'r tiroedd.

## 1. Cynnal a chadw, a gwella

**a. Tebyg at ei debyg**
Ein bwriad yw ailosod unrhyw gynefin a gollir, gan gynnwys coed unigol, gydag amnewidiad mewn ardal addas. Bydd pob amnewidyn yn dilyn y rhestr blannu gynhenid a geir yn atodiad 1.

**b. Cynnal a chadw**
Byddwn yn creu cyfundrefn gynnal a chadw ar sail natur i sicrhau cywirdeb y cynefinoedd ar ein hystadau, a sicrhau cydbwysedd rhwng ein bioamrywiaeth a'n hanghenion gweithredol.

**c. Monitro**
Byddwn yn parhau i fesur a chofnodi yn erbyn ein gweithredoedd i gynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol. Bydd hyn o gymorth i fonitro canfod rhywogaethau newydd a'u rhyngweithiadau a darparu cyfleoedd addysgol a chyfathrebol i'n staff.

**d. Asesiadau amgylcheddol**
Byddwn yn datblygu proses i ymgymryd ag asesiadau amgylcheddol a fydd yn caniatáu i benderfyniadau a newidiadau goleuedig gael eu gwneud cyn dechrau ar unrhyw waith adeiladu a newid mewn strwythur cynefin ar lefelau strategol a gweithredol fel ei gilydd.

## 2. Ymrwymiad staff

a. **Grŵp ymrwymaid bioamrywiaeth**
Byddwn yn parhau i reoli grŵp ymrwymiad bioamrywiaeth mewnol a chynllunio a threfnu gweithgareddau ar gyfer ei aelodau. Bydd y rhain yn cynnwys cyfleoedd addysgol, gweithgareddau i gynnal anghenion ac i wella ein hamgylchedd naturiol a'r monitro cyson sydd ei angen i sicrhau bod adroddiadau am rywogaethau yn rheolaidd ac yn berthnasol.

b. **Blog**
Byddwn yn adfer blog bioamrywiaeth i'w safle yn chwarterol ac yn gwahodd awduron gwadd pan fo hynny'n bosibl.

## 3. Ymrwymiad cymunedol

a. **Cysylltiadau**
Byddwn yn parhau i greu cysylltiadau gyda chymunedau, grwpiau, ysgolion a busnesau lleol. Bydd hyn yn ehangu ein gwybodaeth ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer partneriaethau gwaith i gynnal a gwella'r amgylchedd naturiol sydd yn gyffredin i ni. Bydd y cysylltiadau hyn yn ystyrlon, yn addysgol ac yn hysbysiadol i atgyfnerthu'r potensial i ffurfio penderfyniadau yn y dyfodol a chael effaith gadarnhaol ar y genhedlaeth nesaf.

b. **Cyfarfodydd a digwyddiadau**
Byddwn yn creu perthnasau ac yn rhannau awgrymiadau ar gyfer arfer gorau gyda chyrff eraill y llywodraeth a sefydliadau lleol a chenedlaethol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol.

## 4. Cael gwared ar rywogaethau goresgynnol ac estron a'r defnydd o chwynladdwyr a phlaladdwyr

a. **Cynllun rheoli clymog Japan**
Byddwn yn dilyn ac yn monitro cynydd ein cynllun rheoli clymog Japan i'w atal rhag lledaenu ar ein safle yn Nhreforys.

b. **Deddfwriaeth**
Byddwn yn parhau i lynu at yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ac yn cyfathrebu'r gofynion, gan amlygu cyfrifoldebau i staff a chontractwyr.

c. **Rhestrau plannu cynhenid**
Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r rhestrau 'plannu cynhenid' a 'pheidiwch â defnyddio' a baratowyd ar gyfer ein CGB cyntaf yn 2013 wrth blannu coed a phlanhigion ar y safle.

d. **Chwynladdwyr a phlaladdwyr**
Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dull mwyaf cynaliadwy o reoli pob pla a thyfiant naturiol nas dymunir. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chontractwyr ein hystadau i sicrhau ein bod yn glynu wrth y ddeddfwriaeth ddiweddaraf a'r arferion gorau yn y maes hwn.



# 06 Mapiau

# Mapiau


## Map 5 - Cynefinoedd Treforys




| Lliw | Allwedd |
|---|---|
| (oren) | J1.2 – Glaswelltir amwynder |
| (melyn) | Cynefin mosaig agored |
| (glas) | J1.4 – Llwyn a gyflwynwyd |
| (pinc) | J2.2 – Gwrych wedi darfod |
| (llwyd) | G2 – Dŵr rhedeg |
| (streipiau glas) | G1 – Dŵr llonydd |
| (symbol coeden) | Coeden gollddail* |
| (symbol coeden gonifferaidd) | Coeden goniffer* |

* Yn cynrychioli presenoldeb coed yn unig ac nid y nifer o goed.

### Map 7 - Bro Abertawe



| Lliw | Allwedd |
|---|---|
| | J1.2 – Glaswelltir amwynder |
| | Cynefin mosaig agored |
| | J1.4 – Llwyn a gyflwynwyd |
| | J2.2 – Gwrych wedi darfod |
| | G2 – Dŵr rhedeg |
| | G1 – Dŵr llonydd |
| | Coeden golldail* |
| | Coeden goniffer* |

* Yn cynrychioli presenoldeb coed yn unig ac nid y nifer o goed.

# 07 Atodiadau

# Atodiad 1

## Planhigion ar gyfer ardaloedd plannu trefol, domestig a thirlunio

Defnyddiwch pan fyddwch am greu cynefin rhannol naturiol. Defnyddiwch y rhestrau isod i ddewis y rhywogaeth fwyaf addas.

| Lleoliadau | Enw cyffredin | Enw cwyddonol | Rhywogaeth brodorol? | Dyddiad blodeuo | Pridd yn draenio'n dda/ysgafn | Pridd trwm/ cleiog | Asidig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plannu gwely | Hocysen | Alcea rosea | | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Cenhinen Syfi | Allium schoenoprasum | ydy | 6-7 | * | | |
| Plannu gwely | Aquilegia | Aquilegia vulgaris | ydy | 6-7 | * | * | |
| Plannu gwely | Clychlys | Campanula spp | | 7-8 | * | | |
| Plannu gwely | Blodau gleision crwydrol | Ceanothus thyrsiflorus var. repens | | 5-8 | * | * | |
| Plannu gwely | Pengaled | Centaurea nigra | ydy | 8-9 | * | * | |
| Plannu gwely | Cor-rosyn cyffredin | Cistus | | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Saffrwm | Crocus spp. | | 4-5 | * | | * |
| Plannu gwely | Ysbardun y marchog | Delphinium spp. | | 6-8 | * | | |

| Lleoliadau | Enw cyffredin | Enw cwyddonol | Rhywogaeth brodorol? | Dyddiad blodeuo | Pridd yn draenio'n dda/ysgafn | Pridd trwm/ cleiog | Asidig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plannu gwely | Cribau'r pannwr | Dipsacus fullonum | ydy | 7-8 | * | * | * |
| Plannu gwely | Gwiberlys | Echium vulgare | ydy | 6-9 | * | | |
| Plannu gwely | Celyn y môr | Eryngium maritimum | ydy | 7-8 | * | * | |
| Plannu gwely | Murwyll | Erysimum spp. | | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Escallonia | Escallonia 'Donard Beauty' neu 'Apple Blossom' | | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Erwain | Filipendula ulmaria | ydy | 6-9 | * | | |
| Plannu gwely | Ffiwsia | Fuchsia spp. | | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Eirlysiau | Galanthus ikariae | ydy | 2-3 | * | * | * |
| Plannu gwely | Pig yr aran | Geranium spp. | | 6-7 | * | * | |
| Plannu gwely | Mapgoll glan y dŵr | Geum rivale | ydy | 5-9 | | * | * |
| Plannu gwely | Cor-rosyn | Helianthemum spp | | 5-9 | * | * | |

| Lleoliadau | Enw cyffredin | Enw cwyddonol | Rhywogaeth brodorol? | Dyddiad blodeuo | Pridd yn draenio'n dda/ysgafn | Pridd trwm/ cleiog | Asidig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plannu gwely | Blodyn haul | Helianthus annuus | | 6-8 | * | * | |
| Plannu gwely | Marddanhadlen | Lamium spp. | | 5-9 | * | * | * |
| Plannu gwely | Ytbysen barhaus lydanddail | Lathyrus spp. | | 5-9 | * | * | * |
| Plannu gwely | Lafant | Lavandula angustifolia var. 'Munstead' | | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Llawryf pendrwm | Leucothoe fontanesiana | | 6-7 | * | | * |
| Plannu gwely | Mintys y gath | Nepeta 'Six hills giant' | | 7-9 | * | | |
| Plannu gwely | Mintys y creigiau | Origanum vulgare | ydy | 7-9 | * | | |
| Plannu gwely | Phacelia siderog | Phacelia tanacetifolia | | 5-9 | * | | |
| Plannu gwely | Pumnalen llwyn | Potentilla 'Abbotswood', beesii, fruticosa, | | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Llysiau'r ysgyfaint | Pulmonaria officinalis | ydy | 4-5 | * | * | |
| Plannu gwely | Cyrens blodeuog | Ribes sanguineum | ydy | 4-5 | * | | |

| Lleoliadau | Enw cyffredin | Enw cwyddonol | Rhywogaeth brodorol? | Dyddiad blodeuo | Pridd yn draenio'n dda/ysgafn | Pridd trwm/ cleiog | Asidig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plannu gwely | Rhosmari | Rosmarinus officinalis | ydy | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Mafon cochion gwyllt | Rubus idaeus | ydy | 6-8 | * | | * |
| Plannu gwely | Saets | Salvia officinalis var. purpurascens | | 6-8 | * | | |
| Plannu gwely | Clafrllys | Scabiosa/Succisa/Knautia | | 7-9 | * | | |
| Plannu gwely | Llysiau'r cwlwm | Symphytum officinale | ydy | 5-6 | * | | |
| Plannu gwely | Teim | Thymus spp, | | 5-8 | * | | |
| Plannu gwely | Llysiau'r gwaed | Vinca major | | 4-5 | * | * | |
| Llwyn | Berberis | Berberis darwinii | | 5-6 | * | * | |
| Llwyn | Y gynffon las | Buddleja spp: Rhywogaethau nad yw'n orengynnol yn unig DIM davidii! | | 7-9 | * | * | |
| Llwyn | Grug | Calluna spp., Erica spp. | ydy | 7-9 | * | | * |
| Llwyn | Banhadlen | Cytisus scoparius | ydy | 5-6 | * | | |

| Lleoliadau | Enw cyffredin | Enw cwyddonol | Rhywogaeth brodorol? | Dyddiad blodeuo | Pridd yn draenio'n dda/ysgafn | Pridd trwm/ cleiog | Asidig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwyn | Aeronen y bisgwydden | Euonymus europaeus | ydy | 5-6 | * | | |
| Llwyn | Hebe 'White Gem' | Hebe brachysiphon (rhai spp. goresgynnol posibl eraill]) | | 7-9 | * | * | * |
| Llwyn | Gwinwydden oregon | Mahonia spp | | 5-6 | * | | * |
| Llwyn | Mafonen win | Rubus phoenicolasius | | 5-7 | * | | |
| Llwyn | Erwain | Spirea japonica 'Golden Princess' | | 6-8 | * | * | |
| Llwyn | Eithin | Ulex europaeus | ydy | 3-8 | * | | * |
| Llwyn | Gwifwrnwydden y Gors | Viburnum opulus | ydy | 6-7 | * | | |
| Coed a llwyni | Masarnen fach | Acer campestre | ydy | 5-6 | * | * | * |
| Coed a llwyni | Draenen wen | Crataegus monogyna | ydy | 5-6 | * | * | * |
| Coed a llwyni | Gwyddfid | Lonicera periclymenum (a rhywogaethau nad yw'n oresgynnol eraill) | ydy | 5-6 | * | | * |
| Coed a llwyni | Afalau bach surion | Malus sylvestris | ydy | 5 | * | | * |

| Lleoliadau | Enw cyffredin | Enw cwyddonol | Rhywogaeth brodorol? | Dyddiad blodeuo | Pridd yn draenio'n dda/ysgafn | Pridd trwm/ cleiog | Asidig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coed a llwyni | Draenen ddu | Prunus spinosa | ydy | 4-5 | * | | |
| Coed a llwyni | Ceirios addurnol | Prunus spp yn osgoi blodau cymhlyg a DIM Portugal Laurel Prunus lusitanica | | 4-5 | * | | |
| Coed a llwyni | Helyg a merhelyg | Salix spp. – mathau brodorol | ydy | 3-4 | * | * | |
| Coed a llwyni | Ysgawen | Sambucus nigra | ydy | 6-7 | * | | |
| Coed a llwyni | Cerddinen | Sorbus aucuparia | ydy | 5-6 | * | * | * |

# Atodiad 2

## Y rhestr ‘peidiwch â’u defnyddio’

Rhestr yw hon o rywogaethau sy’n ymledol eu natur ac na ddylid eu defnyddio byth mewn cynlluniau plannu.

| | | |
|---|---|---|
| Cenhinen, prinddail | Allium paradoxum | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Garlleg, Tair congl | Allium triquetrum | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Coeden fêl | Buddleia davidii | Gall fod yn ymledol |
| Creigafal deiliog | Cotneaster microphyllus | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Creigafal, aeron celyn | Cotoneaster bullatus | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Creigafal | Cotoneaster horizontalis | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Creigafal, dail cyfan | Cotoneaster integrifolius | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Creigafal | Cotoneaster simonsii | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Ceirchen goch | Crocosmia x crocosmiiflora | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Llysiau’r dail | Fallopia japonica | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Llysiau’r dail, hybrid | Fallopia japonica x Fallopia sachalinensis | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |

| | | |
|---|---|---|
| Clymog cawraidd | Fallopia sachalinensis | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Rheonllys mawr | Gunnera tinctoria | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Efwr enfawr | Heracleum mantegazzianum | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Ffromlys Chwarennog | Impatiens glandulifera | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Marddanhadlen felen | Lamiastrum galeobdolon subsp. argentatum | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Gwinwydden Virginia ffug | Parthenocissus inserta | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Gwinwydden Virginia | Parthenocissus quinquefolia | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Llawr-sirianen Portiwgal | Prunus lusitanica | Gall fod yn ymledol |
| Rhododendron Melyn | Rhododendron luteum | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Rhododendrwm | Rhododendron ponticum | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Rhododendron | Rhododendron ponticum x Rhododendron maximum | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Rhosyn Siapaneaidd | Rosa rugosa | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Salvinia, Enfawr | Salvinia molesta | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Alexander, trydwll | Smyrnium perfoliatum | Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| Hebe | Rhywogaethau heblaw brachysiphon neu dieffenbachia | Gall fod yn ymledol |